Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

**Ffurflen**

**OPG108**

# Gwneud cais am ad-daliad ffioedd dirprwy

Llenwch y ffurflen hon i gael ad-daliad ffioedd dirprwy:

- ar ran rhywun a arferai fod â dirprwy
- os oedd gennych chi ddirprwy ac yn awr yn gwneud eich penderfyniadau eich hun

**Ble i anfon y ffurflen ar ôl ei chwblhau**

E-bostiwch y ffurflen i: opg.cymraeg@publicguardian.gov.uk

Defnyddiwch **'Ad-daliad ffioedd dirprwy'** fel y pwnc.

Postiwch i:

Deputyship fee refunds
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
PO Box 10796
Nottingham
NG2 9WF

# Canllaw

## Termau a ddefnyddir gennym

**Aelodau'r teulu** – pobl sy'n perthyn i'r client ond nad ydynt yn gweithredu fel eu hysgutor na'u gweinyddwr.

**Atwrnai** – unigolyn a enwir mewn atwrneiaeth arhosol eiddo a materion ariannol, i wneud penderfyniadau ar ran rhywun.

**Client** – unigolyn a oedd â dirprwy am nad oedd ganddynt y galluedd meddyliol i wneud rhai penderfyniadau.

**Dirprwy** – rhywun a benodwyd gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ar ran client.

**Ffioedd dirprwy** – term cyffredinol sy'n cynnwys y ffi asesu a delir ar ddechrau cyfnod o weithredu fel dirprwy, a ffioedd goruchwylio a delir ym mhob blwyddyn o weithredu fel dirprwy.

**Gweinyddwr** – rhywun sydd wedi gwneud cais i ddelio ag ystâd os oedd rhywun heb wneud ewyllys.

**Ysgutor** – rhywun a enwir mewn ewyllys, neu mewn diweddariad i ewyllys ('codisil'), fel unigolyn a all ddelio ag ystâd.

## Cefndir

Mae'r cynllun hwn yn ymdrin â ffioedd dirprwy a dalwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2015.

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) yn rhedeg y cynllun hwn ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Gwneud cais ar ran client

Os nad oes ysgutor na gweinyddwr, gall aelodau'r teulu wneud cais am ad-daliad.

Rydym yn derbyn ceisiadau gan aelodau'r teulu yn y drefn a restrir ar dudalen 6.

Cyn i chi wneud cais, gwiriwch nad oes neb yn uwch ar y rhestr a all wneud cais. Os oes, hwy ddylai wneud cais.

## Sut yr ydym yn eich talu

Y ffordd gyflymaf i gael ad-daliad yw drwy drosglwyddiad banc.

Os ydych chi'n atwrnai sy'n gwneud cais ar ran client, rhaid i'r cyfrif banc fod yn enw'r client.

Os na fyddwch yn rhoi eich manylion banc i ni, byddwn wedyn yn anfon siec i'ch cyfeiriad.

Rhaid i'r ad-daliad gael ei dalu i ystâd y client.

## Symiau ad-daliadau

Rydym yn cyfrifo ad-daliadau yn seiliedig ar sut roedd client yn talu eu ffioedd, ac am ba hyd.

Rydym hefyd yn ystyried:

- a oedd y client wedi cael esemptiadau, ffioedd wedi'u diddymu neu eu hepgor
- a oedd unrhyw ffioedd heb eu talu

Mewn rhai achosion, bydd yn costio mwy i wneud cais nag a gewch fel ad-daliad. Nid yw OPG yn gyfrifol am unrhyw gostau neu dreuliau sy'n codi yn sgil eich cais.

## Cadw mewn cysylltiad â chi

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am gynnydd eich cais drwy e-bost neu lythyr. Byddwn yn dweud wrthych:

- pa bryd y cawsom eich cais
- os oes unrhyw wybodaeth ar goll
- pan wneir penderfyniad
- swm yr ad-daliad a phryd y caiff ei dalu

Ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i unrhyw ddiben arall.

## Eich data personol

Rydym o ddifrif ynglŷn â diogelu eich data personol. Am wybodaeth am sut yr ydym yn gwneud hyn, gan gynnwys sut i dynnu eich cydsyniad i ni ddefnyddio eich data i brosesu'r cais hwn yn ôl, gweler ein siarter gwybodaeth bersonol ar GOV.UK

# Sut i wneud cais

## 1 Dechrau eich cais

**A** Mae pawb yn llenwi rhan A

**B** Mae ysgutorion, gweinyddwyr, atwrneiod ac aelodau'r teulu'n llenwi rhan B

**C** Mae aelodau'r teulu'n llenwi rhan C

**D** Mae pawb yn llenwi rhan D

## 2 Casglu eich tystiolaeth

- prawf o'ch enw a'ch cyfeiriad
- prawf eich bod yn gymwys i gael ad-daliad

## 3 Cyflwyno eich cais

Ei e-bostio i:
**opg.cymraeg@publicguardian.gov.uk**

Neu ei bostio i:

**Deputyship fee refunds**
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
PO Box 10796
Nottingham
NG2 9WF

## 4 Byddwn yn prosesu eich cais

Gall gymryd hyd at 10 wythnos i gael penderfyniad a 2 wythnos arall i gael eich ad-daliad

## E-bostio eich cais

Y ffordd gyflymaf i gyflwyno'ch cais yw drwy e-bost.

Bydd angen i chi amgáu copïau wedi'u sganio neu ffotograffau eglur o ddogfennau gwreiddiol.

Rhaid i gyfanswm maint y ffeil ar gyfer yr e-bost fod yn llai na 10MB.

## Postio eich cais

Gallwch naill ai lenwi'r ffurflen ar-lein neu argraffu copi gwag a'i llenwi â llaw.

Defnyddiwch inc du ac ysgrifennwch mewn llythrennau bras os ydych yn llenwi'r ffurflen â llaw. Os na allwn ddarllen eich llawysgrifen efallai y bydd hynny'n achosi oedi.

Bydd angen i chi hefyd anfon eich tystiolaeth atom.

Nid oes yn rhaid i chi anfon dogfennau gwreiddiol, ond gwnewch yn siŵr bod copïau'n ddigon eglur i'w darllen a'ch bod yn cynnwys pob tudalen.

Byddwn yn gwneud copïau o unrhyw ddogfennau gwreiddiol ac yn eu dychwelyd.

## Rhagor o wybodaeth

**Ffôn (yn y Saesneg):** 0300 456 0300 (opsiwn 6)

(ar agor 9am tan 5pm ar dyddiau gwaith, heblaw dydd Mercher, 10am tan 5pm)

**Ffôn testun:** 0115 934 2778

# Gwneud cais am ad-daliad ffioedd dirprwy

## Cyfeirnod OPG (os yn hysbys)

Mae cyfeirnodau OPG yn 7, 8 neu 12 digid o hyd

Efallai bod gennych chi gyfeirnod OPG ar lythyr gan OPG yn ymwneud â bod yn ddirprwy

## Eich manylion

Teitl

Enwau cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Cod post

E-bost (dewisol)

Rhif ffôn (dewisol)

Os ydych chi wedi'ch enwi ar y gorchymyn llys dirprwy ond wedi newid eich enw ers hynny, ffoniwch ni ar 0300 456 0300 yn y Saesneg (option 6)

Drwy roi eich manylion yn rhan A, rydych yn cytuno y gall OPG ddefnyddio eich gwybodaeth i brosesu'r cais hwn ac i gysylltu â chi yn ei gylch

Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg – gweler ein siarter gwybodaeth bersonol am ragor

### Ai chi yw'r client? (a oedd gennych chi ddirprwy yn y gorffennol?)

☐ **Ie, fi yw'r client**

Os oes, **eich dyddiad geni**

Diwrnod Mis Blwyddyn

Ewch i **ran D**

☐ **Na, nid fi yw'r client**

Ewch i **ran B**

# Manylion y client

Teitl

Enwau cyntaf

Enw olaf

Unrhyw enwau eraill sy'n cael eu defnyddio i gyfeirio at y client

Dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn

Cyfeiriad ar yr adeg pan ddaeth y swyddogaeth fel dirprwy i ben

Cod post

Nid oes angen i chi lenwi'r adran hon os oeddech yn arfer bod â dirprwy i wneud penderfyniadau ar eich rhan – gallwch fynd ar eich union i **ran D**

Os nad ydych yn gwybod y cyfeiriad pan ddaeth swyddogaeth y dirprwy i ben, dywedwch wrthym beth oedd cyfeiriad

## A yw'r client wedi marw?

**Ydy, mae'r client wedi marw ac rwyf yn gwneud cais am ad-daliad fel:**

- ☐ ysgutor eu hewyllys
- ☐ gweinyddwr eu hystâd (nid oes ysgutor)
- ☐ aelod o'r teulu (nid oes ysgutor na gweinyddwr)

Dyddiad marwolaeth y client

Diwrnod Mis Blwyddyn

**Nac ydy, nid yw'r client wedi marw** a fi yw:

- ☐ eu hatwrnai, sy'n gweithredu'n gyfreithiol o dan atwrneiaeth arhosol eiddo a materion ariannol

?

**Ddim y siŵr a ydych chi'n ysgutor ynteu aelod o'r teulu?**

Bydd rhai ymgeiswyr yn dod o fewn mwy nag un categori

Ar y ffurflen hon, dylech wneud cais fel aelod o'r teulu os **nad** ydych chi'n ysgutor nac yn weinyddwr

Os ydych chi'n gwneud cais fel aelod o deulu'r client, ewch i **ran C.**

Os ydych chi'n gwneud cais fel ysgutor, gweinyddwr neu atwrnai ewch i **ran D.**

# Perthynas â'r client

Os nad oes ysgutor na gweinyddwr ar ran y client, rydym yn derbyn ceisiadau gan aelodau'r teulu yn y drefn flaenoriaeth isod. Cyn gwneud cais, dylech wirio nad oes neb yn uwch ar y rhestr a all wneud cais yn eich lle.

**Fy mherthynas â'r client yw:** (ticiwch un)

- ☐ 1. gŵr, gwraig neu bartner sifil
- ☐ 2. plentyn neu ŵyr neu wyres
- ☐ 3. mam neu dad
- ☐ 4. brawd neu chwaer sy'n rhannu'r un tad a mam, neu eu plant (nithoedd a neiaint y client)
- ☐ 5. hanner brawd neu hanner chwaer (mae 'hanner' yn golygu eich bod yn rhannu un rhiant yn unig â'r client)
- ☐ 6. nain neu daid
- ☐ 7. ewythr neu fodryb, neu eu plant (cefndryd neu gyfnitherod y client)
- ☐ 8. arall – dywedwch wrthym sut yr ydych yn perthyn i'r client

Cofiwch: os ydych chi'n ysgutor neu'n weinyddwr ystâd y client, nid oes angen i chi lenwi'r rhan hon, hyd yn oed os ydych yn perthyn i'r client

Os nad ydych yn perthyn drwy waed i'r client – er enghraifft, os ydych yn llys berthynas neu wedi byw â'r client fel partner ond heb fod yn briod â hwy – ticiwch 'arall'

## Datganiad gwirionedd

- Nid oes ysgutorion wedi'u henwi yn ewyllys y client, nac unrhyw un sydd â llythyrau gweinyddu, a all wneud cais yn fy lle fi.
- Rwyf wedi trafod y cais hwn gyda buddiolwyr eraill neu aelodau'r teulu, lle'r oedd yn briodol i wneud hynny
- Mae gennyf hawl i wneud cais am ad-daliad ar ran ystâd y client
- Byddaf yn gwneud yn siŵr bod unrhyw ad-daliad a delir imi yn cael ei rannu'n briodol yn unol â dymuniadau'r client, os ydynt yn hysbys
- Mi wn y gallwn fod yn torri'r gyfraith os wyf yn fwriadol yn rhoi gwybodaeth anghywir yn fy nghais

☐ **Rwyf yn cytuno â'r datganiad gwirionedd** (ticiwch)

# Tystiolaeth i'w chynnwys

I ategu eich cais, bydd angen inni weld tystiolaeth o'ch:

1. Enw
2. Cyfeiriad
3. Yr hawl i wneud cais am ad-daliad (nid oes angen i gleientiaid gynnwys hyn)

Ni allwch ddefnyddio'r un darn o dystiolaeth i brofi eich enw a'ch cyfeiriad.

## 1. Prawf o'ch enw (dewiswch un)

- Pasbort cyfredol wedi'i lofnodi (copi o'r dudalen sy'n dangos eich enw a'ch llun)
- Tystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol
- Trwydded yrru cerdyn-llun gyfredol y DU neu'r EEA (nid trwydded dros dro)
- Trwydded yrru lawn yn yr hen ddiwyg
- Cerdyn adnabod aelod wladwriaeth o'r EEA neu gerdyn-llun adnabod cenedlaethol
- Llyfr budd-daliadau neu lythyr hysbysu gwreiddiol gan yr asiantaeth fudd-daliadau

## 2. Prawf o'ch cyfeiriad (dewiswch un)

- Bil cyfleustodau (nid bil ffôn symudol) o'r 12 is diwethaf
- Bil treth gyngor cyfredol
- Mantolen banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd neu lyfr taliadau o fewn y 3 mis diwethaf
- Datganiad morgais gwreiddiol a gyhoeddwyd am y flwyddyn lawn olaf
- Cerdyn rhent neu gytundeb tenantiaeth cyngor neu gymdeithas tai am y flwyddyn gyfredol

## 3. Prawf o'ch hawl i wneud cais am ad-daliad

**Ysgutorion** – anfonwch gopi o grant profiant atom

**Gweinyddwyr** – anfonwch gopi o'r llythyrau gweinyddu atom

**Atwrneiod** – dywedwch wrthym beth yw cyfeirnod yr LPA cofrestredig

**Aelodau'r teulu** – anfonwch gopi o dystysgrif marwolaeth y client atom

Bydd angen **copïau eglur** o ddogfennau arnom – does dim angen anfon y gwreiddiol

**Dywedwch wrthym ar y dudalen nesaf pa dystiolaeth rydych yn ei hanfon**

# Tystiolaeth i'w chynnwys

Ticiwch un blwch yn unig

☐ **Fi yw'r client** ac rwyf wedi cynnwys prawf o fy enw a fy nghyfeiriad

☐ **Rwyf yn ysgutor** ac rwyf wedi cynnwys prawf o fy enw a fy nghyfeiriad **a** chopi o'r grant profiant

☐ **Rwyf yn weinyddwr** ac rwyf wedi cynnwys prawf o fy enw a fy nghyfeiriad **a** chopi o'r llythyrau gweinyddu

☐ **Rwyf yn atwrnai** ac rwyf wedi cynnwys prawf o fy enw a fy nghyfeiriad **ac** wedi ysgrifennu cyfeirnod LPA eiddo cofrestredig a materion ariannol y client isod

Gall cyfeirnodau fod yn 7 neu 12 digid o hyd

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | |

☐ **Rwyf yn aelod o'r teulu** ac rwyf wedi cynnwys prawf o fy enw a fy nghyfeiriad **a** chopi o dystysgrif marwolaeth y client (bydd angen copi o'r dystysgrif marwolaeth arnom hyd yn oed os yw'r OPG wedi ei gweld o'r blaen)

?

**Ddim yn siŵr pa dystiolaeth i'w hanfon gyda'ch cais?**

Ffoniwch ein llinell gymorth (yn y Saesneg) ar

0300 456 0300 (opsiwn 6)

Mae linellau ar agor o 9am tan 5pm ar ddyddiau

## Sut i anfon eich tystiolaeth atom

**Gwneud cais drwy e-bost:**

Gallwch sganio eich tystiolaeth os oes gennych sganiwr wedi'i gysylltu â chyfrifiadur. Gallwch hefyd dynnu lluniau eglur o'r dystiolaeth ac atodi'r ffotograffau at yr e-bost rydych yn ei anfon atom.

Os ydych yn gwneud cais drwy e-bost, cofiwch wneud yn siŵr nad yw cyfanswm maint yr e-bost yn fwy na 10MB.

**Gwneud cais drwy'r post:**

Anfonwch lungopïau o ansawdd da o'ch tystiolaeth. Gallwch anfon llungopïau du a gwyn neu liw. Nid oes yn rhaid inni weld y dogfennau gwreiddiol.

Os na allwch lungopïo eich dogfennau, gallwch anfon y rhai gwreiddiol ar eich menter eich hun. Byddwn yn eu dychwelyd atoch drwy'r post cyn gynted ag y byddwn wedi eu sganio.

!

Os nad ydych yn siŵr sut i atodi eich tystiolaeth wrth e-bost, gofynnwch i rywun rydych yn ymddiried ynddynt i helpu

# Manylion talu

Dywedwch wrthym sut yr hoffech i'r ad-daliad gael ei dalu.

Os ydych chi'n atwrnai sy'n gwneud cais am ad-daliad ar ran client, rhaid i'r ad-daliad gael ei dalu i gyfrif banc sy'n eiddo i'r client.

Hoffwn i chi dalu'r ad-daliad drwy (dewiswch un)

☐ **Trosglwyddiad banc** (y ffordd gyflymaf o gael ad-daliad yw drwy drosglwyddiad banc)**.**

Enw'r banc neu gymdeithas adeiladu

Enw'r cyfrif

Rhif y cyfrif

Cod didoli

☐ **Siec** – mi wnawn anfon siec i'ch cyfeiriad

Os na fyddwch yn rhoi manylion cyfrif banc dilys, gallwn anfon siec atoch

Os byddwch yn gofyn am drosglwyddiad banc a bod y taliad yn cael ei wrthod gan y banc neu'n methu am unrhyw reswm, gallwn anfon siec yn ei le

## Rhannu ad-daliad rhwng buddiolwyr y client

Os ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun sydd wedi marw, rydych chi'n gyfrifol am rannu unrhyw ad-daliad rhwng eu buddiolwyr.

Ar ôl i unrhyw ddyledion a threthi gael eu talu, gallwch ddosbarthu'r ad-daliad fel y nodwyd:

- yn ewyllys y client
- gan y gyfraith, os nad oes ewyllys

Os ydych chi'n ysgutor neu'n weinyddwr a bod ystâd y client wedi'i setlo eisoes, gallwch ofyn am gyngor i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Os nad ydych yn siŵr sut y dylech weithredu, gallwch siarad â sefydliad fel Cyngor ar Bopeth neu elusen sy'n helpu pobl hŷn. Gallwch hefyd ofyn i gyfreithiwr am gyngor.

# Datganiad

☐ Rwyf yn bwriadu gwneud cais am ad-daliad ffioedd dirprwy.

Mae gennyf hawl i wneud cais am ad-daliad ffioedd dirprwy a dalwyd ar fy rhan, neu ar ran yr unigolyn a enwyd yn rhan B.

Ni wn am ddim rheswm pam na allaf wneud cais am ad-daliad ac rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth bod yr holl wybodaeth a roddwyd gennyf yn fy nghais yn gywir a chyflawn.

Drwy lofnodi'r datganiad hwn rwyf yn caniatáu i OPG ddefnyddio fy nata i ddibenion prosesu'r cais am ad-daliad (ticiwch).

Enw llawn

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

## Beth nesaf?

Gallwch gadw'r ffurflen hon ar eich cyfrifiadur drwy bwyso 'Ffeil', 'Dewisiadau Cadw' a dewis lleoliad ar eich cyfrifiadur lle'r hoffech ei chadw.

Mae cadw'r ffurflen yn golygu nad oes yn rhaid i chi ei chwblhau mewn un sesiwn.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen, dylech ei e-bostio, ynghyd â'ch tystiolaeth i:
**opg.cymraeg@publicguardian.gov.uk**

Neu argraffwch y ffurflen a'i phostio, ynghyd â'ch tystiolaeth i:

> **Deputyship fee refunds**
> Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
> PO Box 10796
> Nottingham
> NG2 9WF

Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod ein bod wedi cael eich cais.

Mi gewch benderfyniad ynglŷn ag ad-daliad o fewn 10 wythnos.